Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Ebrill 2024

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

**1.** Cyflwynwyd y Bil Dioddefwyr a Charcharorion[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 29 Mawrth 2023. Fe'i noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**2.** Mae enw hir y Bil (fel y'i cyflwynwyd) yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

> *"Make provision about victims of criminal conduct and others affected by criminal conduct; about the appointment and functions of individuals to act as independent public advocates for victims of major incidents; about the release of prisoners; about the membership and functions of the Parole Board; to prohibit certain prisoners from forming a marriage or civil partnership; and for connected purposes."*

**3.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 4 Rhagfyr 2023, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Rhagfyr 2023. Daeth y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi i ben ar 25 Mawrth 2024. Dechreuodd y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 16 Ebrill 2024. Ar adeg cytuno ar ein hadroddiad, roedd y Cyfnod Adrodd yn mynd rhagddo, gyda thrydydd eisteddiad i'w gynnal ar 30 Ebrill 2024.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**4.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

**5.** Ar 19 Mai 2023, gosododd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm)[2] gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.

---

[1] Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, fel y'i cyflwynwyd (Bil 286)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Mai 2023

**6.** Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm (ein hadroddiad cyntaf) ar 3 Gorffennaf 2023.[3]

**7.** Roedd paragraffau 11 i 14 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'r darpariaethau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn nodi lle'r oedd anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**8.** Roedd paragraffau 15 i 18 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'r pwerau dirprwyedig yn y Bil sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**9.** Roedd paragraffau 19 ac 25 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodir yn y Memorandwm.

**10.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys pedwar argymhelliad.

**11.** Ymatebodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd i'n hadroddiad cyntaf ar 11 Awst 2023.[4]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

**12.** Ar 22 Rhagfyr 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd at y Llywydd yn nodi:

> *"Mae fy swyddogion wedi bod yn ymwneud â swyddogion y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy gydol hynt y Bil ac wedi bod yn monitro'r gwelliannau. Yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, cyflwynwyd a derbyniwyd 151 o welliannau llywodraethol ac anllywodraethol. Dim ond ar ôl eu cyflwyno y cafodd swyddogion weld y gwelliannau i'r Bil. Er bod fy swyddogion wedi parhau i ystyried a yw'r gwelliannau hyn o fewn cymhwysedd y Senedd neu a ydynt yn newid yn sylweddol y cyngor a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 19 Mai, nid yw wedi bod yn bosibl dadansoddi'r rhain na gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn y cyfnod o bythefnos a nodir yn y Rheolau Sefydlog.*

[3] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Gorffennaf 2023
[4] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 11 Awst 2023

*Yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, disgwylir y bydd gwelliannau pellach yn cael eu gwneud i'r Bil gan gynnwys gwelliannau posibl gan y Llywodraeth i addasu neu wrthdroi'r gwelliant anllywodraethol a dderbyniwyd yn flaenorol sy'n ymwneud â'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig. Rydym hefyd yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU ynghylch y materion a oedd gynt yn ddarostyngedig i femoranda cydsyniad deddfwriaethol fel y nodir uchod. Rydym yn disgwyl rhagor o welliannau ar rai o'r materion hynny yn ystod y Cyfnod Pwyllgor.*

*Rwyf felly yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach ynghylch y Bil yn dilyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, gan nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar welliannau perthnasol cyn y ddadl ddisgwyliedig ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Gan ystyried yr amserlenni, bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwnnw hefyd yn ymdrin ag unrhyw welliannau perthnasol sydd wedi'u gwneud yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Ein disgwyliad ar hyn o bryd yw i'r ddadl ar y cynnig cydsyniad gael ei chynnal ddiwedd mis Chwefror."*[5]

**13.** Gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, Lesley Griffiths AS, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil ar 15 Ebrill 2024.[6]

**14.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm cychwynnol erbyn 29 Ebrill 2024.[7]

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm, a darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**15.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, a ddaeth i ben ar 4 Rhagfyr 2023, a Chyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a ddaeth i ben ar 25 Mawrth 2024.

[5] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Llywydd, 22 Rhagfyr 2023
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Ebrill 2024
[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Ebrill 2024

**16.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

> *"Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, yn unol â'r gwelliannau arfaethedig sy'n dod o fewn ein cymhwysedd, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 4 Rhagfyr 2023 ac 15 Ionawr 2024. Defnyddir rhifau'r cymalau pan fo'r rhain ar gael."*[8]

**17.** Rydym ar ddeall bod y gwelliannau sy'n destun Memorandwm Rhif 2 wedi'u cyflwyno ar 28 Tachwedd 2023[9], 30 Tachwedd 2023[10], a 17 Ionawr 2024[11].

**18.** Mae rhifau cymalau ym Memorandwm Rhif 2 yn cyfeirio at y Bil fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin.[12]

**19.** Mae paragraffau 11 i 30 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Bil ers gosod y Memorandwm.

**20.** Y darpariaethau perthnasol at ddiben Memorandwm Rhif 2 yw:

- cymalau 1 i 4, 11, 15, 22 i 27, 29 i 31, a gwelliannau'r Llywodraeth Cymal Newydd (NC) 22, NC23 ac NC24 (Rhan 1 - Dioddefwyr Ymddygiad Troseddol);
- Gwelliant NC20 gan y Llywodraeth (Adolygiadau o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig);
- Gwelliant y Llywodraeth NC37 (Cyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant lle mae un rhiant yn lladd y llall);
- Gwelliant NC40 (Iawndal i ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig) (Credwn mai Gwelliant NC27 yw hwn[13]).

**21.** Mae paragraffau 11 i 14, 37 a 38 o Femorandwm Rhif 2 yn rhoi manylion am welliannau a wnaed i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin i gymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 sydd i gyd yn ymwneud â'r Cod Dioddefwyr.

---

[8] Memorandwm Rhif 2, paragraff 10
[9] Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Hysbysiad o Welliannau fel ar 28 Tachwedd 2023
[10] Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Hysbysiad o Welliannau fel ar 30 Tachwedd 2023
[11] Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Bil Tŷ'r Arglwyddi 31(i) Gwelliannau i'r Pwyllgor, 17 Ionawr 2024
[12] Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin (Bil Tŷ'r Arglwyddi 31)
[13] Er ein bod yn credu mai Gwelliant NC27 yw hwn, bydd cyfeiriadau yn yr adroddiad yn cyfeirio at NC40 er hwylustod o ystyried mai'r rhif hwn sy'n ymddangos ym Memorandwm Rhif 2.

**22.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd Llywodraeth y DU, ar adeg gosod y Memorandwm, wedi cyflwyno barn i Lywodraeth Cymru ynghylch a oedd angen cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 o'r Bil. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi fel a ganlyn:

> *"Ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi egluro ei safbwynt. Mae hi o'r farn nad yw'r cymalau hyn o fewn cymhwysedd y Senedd gan eu bod yn ymwneud â chanfod ac ymchwilio i droseddau, sy'n fater a gedwir yn ôl.*
>
> *Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y cymalau o fewn cymhwysedd y Senedd am y rhesymau a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cynharach a osodwyd ar gyfer y Bil Dioddefwyr a Charcharorion. Rydym yn parhau i bryderu y gallai'r Cod Dioddefwyr greu problemau cyfansoddiadol. Nid yw'r gwelliannau a wnaed i'r cymalau yn datrys unrhyw un o'r materion a godwyd yn flaenorol a byddwn yn parhau i gadw ein safbwynt yn ôl tra bod trafodaethau â Llywodraeth y DU yn parhau ar ran un o'r Bil."*[14]

**23.** Mae paragraffau 15 i 17 a 39 i 42 o Femorandwm Rhif 2 yn darparu manylion am welliannau a wnaed i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin a Chyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi (gwelliant a gyflwynwyd ar 17 Ionawr 2024[15]) i gymal 15 sy'n ymwneud â chanllawiau ynghylch cynghorwyr annibynnol trais domestig a thrais rhywiol.

**24.** Ym mharagraff 39 o Femorandwm Rhif 2 mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan nad yw'r gwelliannau a wnaed i gymal 15 "yn datrys y meysydd pryder" a nodir yn y Memorandwm a osodwyd ym mis Mai 2023. Mae'n ychwanegu:

> *"… rydym ni o'r farn y dylai unrhyw ganllawiau yng Nghymru gael eu dyroddi gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na Llywodraeth y DU, yn unol â'n cyfrifoldebau datganoledig. (…)*
>
> *Mae fy swyddogion yn parhau â thrafodaethau â swyddogion Llywodraeth y DU mewn perthynas â Chymal 15. Diben y trafodaethau hyn yw brocera datrysiad pragmatig sy'n parchu'r*

---

[14] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 37 a 38
[15] Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Bil Tŷ'r Arglwyddi 31(i) Gwelliannau i'r Pwyllgor, 17 Ionawr 2024

> *Bartneriaeth Genedlaethol a'r strwythur Glasbrint ar gyfer cyflawni nodau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015. Rydym yn croesawu'r ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU ar Gymal 15 o'r Bil hyd yma, a byddwn yn parhau i gadw ein safbwynt yn ôl ar y cymalau hyn nes bod y trafodaethau wedi dod i ben."*[16]

**25.** Mae paragraffau 18, 19, 43 a 44 o Femorandwm Rhif 2 yn rhoi manylion am welliannau a wnaed i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin i gymalau 24 i 27 a 29 i 31 sy'n ymwneud â gwybodaeth ynghylch dioddefwyr a phenodi eiriolwyr. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys ychwanegu tri chymal newydd, yn ogystal â gwelliannau i'r cymalau presennol sydd wedi'u rhifo 24 i 27 a 29 i 31 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin.

**26.** Cyflwynwyd y gwelliannau i'r cymalau newydd y cyfeirir atynt ym mharagraff 18 ar 28 Tachwedd 2023[17] yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ac maent fel a ganlyn:

- Gwelliant y Llywodraeth NC22 (Ystyr "digwyddiad mawr" ac ati);
- Gwelliant y Llywodraeth NC23 (Penodi eiriolwr sefydlog);
- Gwelliant y Llywodraeth NC24 (Cyhoeddi adroddiadau).

**27.** O ran y newidiadau hyn, ym mharagraffau 43 a 44 o Femorandwm Rhif 2 mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

> *"Nid yw'r gwelliannau diweddaraf gan y Llywodraeth i'r cymalau yn cynnwys darpariaethau sy'n gwneud cydsyniad Gweinidogion Cymru yn ofynnol wrth benodi a defnyddio'r eiriolwr ar gyfer dioddefwyr digwyddiadau mawr. Gan y bydd unrhyw eiriolwr yn gweithio mewn maes sydd wedi ei ddatganoli i raddau helaeth y gall y Senedd ddeddfu arno, mae swyddogion yn credu bod ei hepgor yn golygu na ddylai'r Senedd roi cydsyniad i ran dau o'r Bil ar hyn o bryd.*
>
> *Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gryfhau rôl Gweinidogion Cymru tra'n cynnal cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn croesawu'r ymgysylltiad gan Lywodraeth y*

[16] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 40 a 42
[17] Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Hysbysiad o Welliannau fel ar 28 Tachwedd 2023

*DU ar ran dau o'r Bil hyd yma, a byddwn yn parhau i gadw ein safbwynt yn ôl ar y cymalau hyn nes bod y trafodaethau wedi dodi ben."*

**28.** Mae paragraffau 21 i 23, 31 a 32 o Femorandwm Rhif 2 yn rhoi manylion am welliant NC20 y Llywodraeth sy'n ymwneud ag adolygiadau o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Cyflwynwyd y gwelliant ar 28 Tachwedd 2023[18] yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

**29.** Mae'r cymal newydd hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo person neu gorff penodedig i sefydlu a chymryd rhan mewn adolygiad o farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, ac mae'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol osod swyddogaethau a gofynion ar Awdurdodau Cymru Datganoledig. Mae'n dod â'r diffiniad o adolygiadau o ddynladdiad domestig yn unol â diffiniad Deddf Cam-drin Domestig 2021. Mae'r cymal yn cynnwys pŵer i ychwanegu at y rhestr o gyrff sy'n destun y ddarpariaeth sy'n golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ychwanegu Awdurdodau Cymreig Datganoledig pellach.

**30.** Ym mharagraff 22 o Femorandwm Rhif 2 mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

*"Mae paragraff 34 o'r Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 'Parliamentary and Assembly Primary Legislation affecting Wales' yn awgrymu bod Llywodraeth y DU o'r farn bod cydsyniad y Senedd yn ofynnol ar gyfer gosod "swyddogaeth a gedwir yn ôl" ("reserved function") ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Felly, caiff y ddarpariaeth hon ei dwyn i sylw'r Senedd gan fod y cymal yn gosod cyfrifoldebau ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig i gynnal adolygiadau at ddiben dysgu gwersi am y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer yr ymadawedig. Y farn yw y gallai'r Senedd ddeddfu mewn amgylchiadau tebyg gan mai'r diben yw dysgu gwersi am y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer yr ymadawedig, yn hytrach na bod ynglŷn â'r ymddygiad troseddol ei hun (sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl). Fodd bynnag, ni allai'r Senedd osod y swyddogaethau hyn ar awdurdodau a gedwir yn ôl ac felly byddai cwmpas unrhyw ddarpariaeth gyfatebol yn gyfyngedig."*

[18] Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Hysbysiad o Welliannau fel ar 28 Tachwedd 2023

**31.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn mynd ymlaen i ddatgan bod Llywodraeth Cymru "o'r farn bod diwygio'r diffiniad o adolygiadau dynladdiad domestig, i gyd-fynd â diffiniad Deddf Cam-drin Domestig 2021, yn gam cadarnhaol"[19]. Mae hefyd yn ychwanegu:

> *"Er ein bod yn argymell y dylai'r Senedd roi cydsyniad i'r cymal ar y sail a nodir uchod, byddem wedi hoffi gweld Llywodraeth y DU yn mynd ymhellach a chynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Canllawiau Dynladdiad Domestig."*[20]

**32.** Mae paragraffau 24 i 27, 33 a 34 o Femorandwm Rhif 2 yn rhoi manylion am welliant NC37 y Llywodraeth sy'n ymwneud â chyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant pan fo un rhiant yn lladd y llall. Cyflwynwyd y gwelliant ar 30 Tachwedd 2023[21] yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

**33.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

> *"Mae llysoedd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb a gedwir yn ôl, ond mae adran 10B newydd o'r ddarpariaeth yn ymwneud ag adolygiadau o orchmynion a wneir o dan adran 10A, ac yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol Cymru (hy Awdurdodau Cymreig Datganoledig) i adolygu'r gorchmynion ar ôl iddynt gael eu gwneud. (…)*
>
> *"… mae paragraff 34 o'r Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 'Parliamentary and Assembly Primary Legislation affecting Wales' yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd i osod "swyddogaeth a gedwir yn ôl" ("reserved function") ar Awdurdod Cymreig Datganoledig.*
>
> *Mae'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol Cymru yn ymwneud ag adolygiadau o'r gorchmynion a wneir, yn hytrach na natur cyfrifoldeb rhiant a sut y caiff ei gaffael ac y gellir ei golli, gan fod y materion hyn yn faterion a gedwir yn ôl. Serch hynny, mae'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i*

[19] Memorandwm Rhif 2, paragraff 31
[20] Memorandwm Rhif 2, paragraff 32
[21] Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Hysbysiad o Welliannau fel ar 30 Tachwedd 2023

> *sbarduno ar gyfer y ddarpariaeth hon fel y nodir uchod, oherwydd yr effaith ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig."*[22]

**34.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn mynd ymlaen i ddweud:

> *"… mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod dim ond mewn perthynas â'r effaith y mae'n ei chael ar awdurdodau lleol. (…)*
>
> *Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y ddarpariaeth yn cefnogi'r dull Glasbrint Trais yn erbyn Menywod a Merched sydd gennym yng Nghymru yn ogystal â darparu amddiffyniad i blant cyflawnwyr troseddau difrifol."*[23]

**35.** Mae paragraffau 29, 30, 35 a 36 o Femorandwm Rhif 2 yn rhoi manylion am welliant NC40 sy'n ymwneud ag iawndal i ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig. Roedd y gwelliant yn welliant anllywodraethol, a gyflwynwyd hefyd ar 30 Tachwedd 2023[24] yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

**36.** Mae'r cymal newydd hwn yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu corff i weinyddu'r cynllun iawndal i ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig o fewn tri mis i basio'r Ddeddf. Mae'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach ynghylch y corff ac yn diffinio dioddefwr drwy gyfeirio at Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig.

**37.** Ym mharagraff 30 o Femorandwm Rhif 2 mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

> *"Mae'r dadansoddiad cymhwysedd deddfwriaethol wedi ystyried i ba raddau y gellid sefydlu corff iawndal Cymreig mewn perthynas â Chymru. Felly, nid yw'n ystyried yn uniongyrchol gymal 40 o'r Bil sy'n sefydlu corff ar sail pedair gwlad gan y byddai hyn y tu hwnt i gymhwysedd; fel arall, mae'n ystyried darpariaeth a allai gael yr un effaith i raddau helaeth yng Nghymru, hy un sy'n sefydlu corff iawndal Cymreig. Ystyrir bod cymal 40 o fewn cymhwysedd y Senedd ar y sail nad yw'n sbarduno unrhyw un o'r materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Hefyd, ystyrir*

[22] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 25 i 27
[23] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 33 a 34
[24] Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Hysbysiad o Welliannau fel ar 30 Tachwedd 2023

*bod y ddarpariaeth yn ymwneud â mater datganoledig iechyd; cefnogir hyn ymhellach gan y ffaith bod y cynllun cymorth ex-gratia yng Nghymru yn cael ei redeg gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) a'i fod wedi ei sefydlu gan ddefnyddio pwerau iechyd Gweinidogion Cymru a geir yn Neddf y GIG (Cymru) 2006. Felly, mae'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi ei sbarduno.”*

**38.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn mynd ymlaen i ddweud:

> *“Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod budd cyflwyno'r cymal fel y bydd y darpariaethau'n gymwys ar yr un pryd ledled y DU. Er bod cynllun eisoes wedi'i sefydlu yng Nghymru, ffefrir dull pedair gwlad i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfartal. Rwy'n ystyried defnyddio Bil y DU i ddarparu cyfle pragmatig ac effeithlon i sicrhau darpariaeth gyfartal i bawb sy'n byw gyda chanlyniadau cael eu trin â gwaed heintiedig.*
>
> *Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno gwelliant gan y llywodraeth yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ynghylch sefydlu corff iawndal i ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet ar ddrafftio'r gwelliant hwnnw.”*[25]

**39.** I gloi, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

- Efallai y bydd goblygiadau ariannol o ganlyniad i’r darpariaethau sy’n destun Memorandwm Rhif 2 ond “ni fydd hyn yn glir hyd nes y gweithredir y mesurau yn y Bil”.[26]
- Mae cydsyniad yn cael ei argymell ar gyfer Cymalau Newydd 20, 37 a 40.[27]
- Mae Llywodraeth Cymru yn “dal ei safbwynt yn ôl tra bod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth y DU” ac nid yw’n bosibl eto argymell y dylai’r

[25] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 35 a 36
[26] Memorandwm Rhif 2, paragraff 45
[27] Memorandwm Rhif 2, paragraff 46

Senedd gydsynio i'r gwelliannau i gymalau 1 i 4, 11, 15, 22 i 27, a 29 i 31 a Chymalau Newydd 22, 23 a 24.[28]

### Pwerau dirprwyedig

**40.** Fel y nodwyd uchod ym mharagraffau 29 a 36, mae gwelliant NC20 y Llywodraeth yn cynnwys pŵer newydd i wneud cyfarwyddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac mae gwelliant NC40 yn cynnwys pŵer newydd i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**41.** Gwnaethom ystyried Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 29 Ebrill 2024 ac, o ystyried y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 29 Ebrill 2024 a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes, cytunwyd ar ein hadroddiad yr un diwrnod.[29]

## Ein barn ni

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer

**42.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

**43.** Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod y gwelliannau i gymalau 1 i 4, 11, 15, 22 i 27, 29 i 31 yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd o ganlyniad. Yn yr un modd, rydym o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliannau NC20, NC22, NC23, NC24 ac NC37 y Llywodraeth, ynghyd â gwelliant NC40 anllywodraethol.

**44.** Fel sy'n ofynnol gan y Rheolau Sefydlog, mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi'r rhesymau pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer pob cymal (neu ddiwygiad i ddarpariaeth) a restrir yn y memorandwm hwnnw. Mae'r prawf o ran a oes angen cydsyniad wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 29.1.

**45.** Ar gyfer gwelliannau NC20 a NC37, nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyfeirio at baragraff 34 o Ganllaw Llywodraeth y DU (ar Ddatganoli, 'Parliamentary and Assembly Primary Legislation affecting Wales'.[30] Mae'r Canllaw yn nodi

[28] Memorandwm Rhif 2, paragraff 47
[29] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Ebrill 2024
[30] Llywodraeth y DU, Canllaw ar Ddatganoli, Parliamentary and Assembly Primary Legislation affecting Wales (Saesneg yn unig)

canllawiau i Lywodraeth y DU o ran pryd y mae'n credu bod angen cydsyniad gan y Senedd ar gyfer cymalau yn neddfwriaeth y DU. Fodd bynnag, nid yw hwn yn brawf perthnasol i'w ystyried at ddiben Rheolau Sefydlog y Senedd. Yn ein barn ni, o ystyried bod Memorandwm Rhif 2 yn cael ei osod gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 29, mae'n ddryslyd ac nid yw'n ddefnyddiol cyfeirio at feini prawf nad ydynt yn berthnasol i broses cydsyniad deddfwriaethol y Senedd heb esboniad digonol.

**Casgliad 1.** Rydym yn ystyried bod y gwelliannau i'r Bil fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2 yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.

## Pwerau dirprwyedig

**46.** Rydym yn nodi bod gwelliant NC20 y Llywodraeth yn cynnwys pŵer newydd i wneud cyfarwyddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac mae gwelliant NC40 yn cynnwys pŵer newydd i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r Bil a'r broses cydsyniad deddfwriaethol

**47.** Rydym yn amlygu ym Mhennod 1 o'n hadroddiad fod Memorandwm Rhif 2, ym mhob achos ac eithrio un, yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd ar 28 a 30 Tachwedd 2023 yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae hyn gyfystyr ag oedi o tua phedwar mis cyn gosod y memorandwm cydsyniad atodol hwn mewn perthynas â'r gwelliannau hynny. Cyflwynwyd y gwelliant unigol a gyflwynwyd ar gyfer y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi sydd wedi'i gynnwys fel darpariaeth berthnasol ym Memorandwm Rhif 2 ar 17 Ionawr 2024, sy'n golygu bod memorandwm ar gyfer y gwelliant hwn tua 10 wythnos yn hwyr.

**48.** Yn ein barn ni, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfiawnhad rhesymol dros yr oedi, wrth inni fynd ymlaen i amlinellu.

**49.** Rydym yn cydnabod, yn ei llythyr at y Llywydd ar 22 Rhagfyr 2023, fod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd wedi dweud ei bod yn disgwyl:

> *"… gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach ynghylch y Bil yn dilyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, gan nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar welliannau perthnasol cyn y ddadl ddisgwyliedig ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Gan ystyried yr amserlenni, bydd y Memorandwm Cydsyniad*

> *Deddfwriaethol atodol hwnnw hefyd yn ymdrin ag unrhyw welliannau perthnasol sydd wedi'u gwneud yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Ein disgwyliad ar hyn o bryd yw i'r ddadl ar y cynnig cydsyniad gael ei chynnal ddiwedd mis Chwefror."*

**50.** Byddai'r dull a nodir yn y llythyr hwn yn cyfyngu ar y cyfnod craffu sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd ystyried gwelliannau a wneir i'r Bil sy'n effeithio ar feysydd datganoledig. Felly, nid ydym yn glir pam y cynigiodd Llywodraeth Cymru ddull o'r fath.

**51.** Mae'n anffodus ac yn siomedig nad dyma'r tro cyntaf inni orfod nodi ein pryder ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan un o Weinidogion Cymru ac adran berthnasol y llywodraeth ynghylch gosod memoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn pryd.

**52.** Yn ein hadroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni[31], gwnaethom ddweud ein bod yn credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru ddysgu gwersi o'r ffordd y mae wedi ymdrin â'r Bil hwn i sicrhau nad oes oedi difrifol wrth osod memoranda cydsyniad yn digwydd eto, ac i sicrhau bod y Senedd yn cael yr wybodaeth y mae ei hangen arni mewn modd amserol i gyflawni ei rôl ddemocrataidd.[32]

**53.** Roedd argymhelliad 2 yn yr adroddiad hwnnw'n gofyn i Lywodraeth Cymru roi canlyniad adolygiad inni o fewn tri mis o'r gwersi a ddysgwyd o'i baratoadau o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol gofynnol ar gyfer y Bil Ynni. Ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James AS, atom ar 12 Rhagfyr 2023 ac ymatebodd i'n hargymhelliad.[33]

**54.** Ailadroddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd farn Llywodraeth Cymru ei bod yn disgwyl ymgysylltiad amserol ac agored gan Lywodraeth y DU ar holl ddeddfwriaeth y DU a allai fod yn berthnasol, yn unol ag ymrwymiadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol.

**55.** Rydym ni, wrth gwrs, yn cydnabod nad oes gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd unrhyw gyfrifoldeb uniongyrchol am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn. Serch hynny, mae'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r Bil Ynni a'r gwersi y dylid bod wedi'u dysgu yn

---

[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni, Medi 2023
[32] Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni, Casgliad 6
[33] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 12 Rhagfyr 2023

uniongyrchol berthnasol i ystyriaeth y Senedd o'r Bil hwn ac unrhyw Fil y DU sy'n destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol.

**56.** Rydym yn derbyn, i raddau, y gall y wybodaeth y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei chyflwyno mewn unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir gerbron y Senedd gael ei heffeithio gan drefniadau rhannu gwybodaeth yn wael rhwng llywodraethau.

**57.** Fodd bynnag, fel y cadarnhawyd yn y llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd at y Llywydd ar 22 Rhagfyr 2023, cafodd Llywodraeth Cymru olwg ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ddiwedd mis Tachwedd 2023. Mae'n ymddangos hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi gweld y gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ganol mis Ionawr.

**Casgliad 2.** Byddai'r Senedd wedi cael mwy o amser ar gyfer craffu pe bai Llywodraeth Cymru wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn gynharach ac mewn perthynas â'r gwelliannau a gyflwynwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac yn dilyn hynny gyda memorandwm pellach yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yn lle hynny, mae cyfle i'r Senedd graffu ar ddarpariaethau newydd yn y Bil, yn ogystal â gwelliannau i gymalau hysbys yn flaenorol, wedi cael ei rwystro'n ddifrifol.

**Casgliad 3.** Nid yw'r oedi cyn gosod y memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol mewn perthynas â'r Bil yn dderbyniol ac mae wedi tanseilio'n ddifrifol allu'r Senedd a'i Haelodau i graffu'n effeithiol ar y Bil a'i effaith yng Nghymru.

**Argymhelliad 1.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet, heb fod yn hwyrach nag yn ystod y ddadl gydsynio berthnasol ar gyfer y Bil, ddarparu manylion llawn i egluro'r oedi cyn gosod y memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol gerbron y Senedd ar gyfer y Bil, ac egluro pam y mae'n ystyried bod yr oedi wrth osod y memoranda atodol deddfwriaethol yn dderbyniol.